**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**MESUR DIWYGIO'R HEDDLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL - PANELI'R HEDDLU A THROSEDDU**

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**

1, "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Phaneli'r Heddlu a Throseddu yn Rhan 1 o Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

**Y Cefndir**

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad Cenedlaethol). Caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 26.2. Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi fod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Mesur Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth parthed Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar 30 Tachwedd 2010 a gellir ei weld yma:

   **http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmbills/116/11116.i-v.html**

**Crynodeb o'r Mesur a'i amcanion polisi**

4. Prif ddiben y Mesur yw gwaredu Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr a chyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gaiff eu hethol yn uniongyrchol ac y bydd Paneli'r Heddlu a Throseddu yn craffu arnynt.

5. Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o gynigion sydd yr un mor berthnasol i Gymru ag ydynt i Loegr, fel a ganlyn:

   - Sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i'w hethol gan y cyhoedd

   - Rhoi'r hawl i'r Comisiynwyr benodi, atal a gwaredu'r Prif Gwnstabl, yn ddarostyngedig i bŵer feto gan Banel yr Heddlu a Throseddu ynghylch penodi a'u dwyn i gyfrif

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynwyr lunio cynlluniau yr heddlu a throseddu

- Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddu er mwyn craffu ar waith y Comisiynwyr

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynwyr lunio adroddiad blynyddol a mynychu cyfarfod o Banel yr Heddlu a Throseddu er mwyn ymateb i unrhyw argymhellion yr hoffent eu gwneud

- Rhoi'r pŵer i'r Comisiynwyr bennu praesept yr heddlu yn ardaloedd yr awdurdodau lleol, gyda phŵer veto ar gael i Baneli'r Heddlu a Throseddu

- Amlinellu cyfansoddiad Paneli'r Heddlu a Throseddu

- Rhoi'r pŵer i'r Comisiynwyr gynnull cyfarfodydd yr holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol o fewn eu hardaloedd.

- Rhoi'r pŵer i'r Comisiynwyr ofyn am adroddiadau oddi wrth Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (D.S. yng Nghymru ni fydd gan y Comisiynwyr y pŵer i ofyn am adroddiad oddi wrth Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghylch camddefnyddio sylweddau heb ganiatâd Panel yr Heddlu a Throseddu)

- Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r camddefnydd o alcohol, fel rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â safleoedd sy'n peri problemau a gwahardd cynigion anghyfrifol o ran diodydd,

- Pwerau atafaelu, cadw a fforffedu er mwyn atgyfnerthu'r modd y gorfodir is-ddeddfau rheolaeth dda a llywodraeth.

6. Mae rhai elfennau o'r Mesur yn benodol i Gymru, fel a ganlyn:

   - Bydd rôl i Weinidogion Cymru ar y cyd â'r Comisiynwyr parthed Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a bydd disgwyl i Banel yr Heddlu a Throseddu gymeradwyo'n unfrydol rai penderfyniadau ynghylch Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

   - Bydd unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru yn aelod o Baneli'r Heddlu a Throseddu.

**Y darpariaethau yn y Mesur y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn amlinellu nifer o ddarpariaethau ynghylch Paneli'r Heddlu a Throseddu. Caiff Paneli'r Heddlu a Throseddu eu disgrifio fel pwyllgorau neu gydbwyllgorau awdurdodau lleol. Mae eu rôl yn cynnwys adolygu a chraffu a hefyd llunio adroddiadau ac argymhellion. Mae Mater 12.7 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd ar gyfer darpariaethau o'r fath. Mae Mater 12.7 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol fel a ganlyn:

> **"**Committees of principal councils with functions of
> (a) review or scrutiny, or
> (b) making reports or recommendations

Golyga hyn fod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

8. Nid yw prif ddiben y Mesur, sef darpariaethau ynghylch ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Byddai rhai manteision ynghlwm â defnyddio'r Mesur hwn er mwyn sicrhau bod trefniadau ynghylch sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn adlewyrchu cydbwysedd y swyddogaethau datganoledig a'r swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli.

9. O'r herwydd mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi'i osod, ac mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol sy'n deillio o'r cynigion ym Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Bydd costau i Awdurdodau Lleol o ran penodi'r swyddog gweinyddol i gynorthwyo Panel yr Heddlu a Throseddu ond mae'r Swyddfa Gartref wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer hyn.

**Carl Sargeant AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Ionawr 2011**